**EITEM AR YR AGENDA: 14**

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 15fed Mawrth 2004 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am faterion yn ymwneud â Gwerth Gorau. |

1. **GWYBODAETH**

1.1 Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Gwerth Gorau
Gweler gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwerth Gorau 29/01/04 am ragor o wybodaeth.

1.2 Canlyniadau Arolwg Bodlonrwydd y Cyhoedd
Mae DPGG3 yn gwneud gofyniad ar awdurdodau i gynnal arolwg cyhoeddus o gyfeiriadau yn eu hardal ar hap bob tair blynedd er mwyn mesur lefel bodlonrwydd y cyhoedd 'o ran y ffordd mae'r awdurdod yn rhedeg pethau'.

Anfonwyd 4000 o holiaduron allan ar ddiwedd y llynedd, a dychwelwyd 1385 wedi eu cwblhau. Mae'r rhain bellach wedi cael eu dadansoddi, ac maent yn dangos i gynnydd fod yn y ganran o bobl sydd naill ai'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â'r awdurdod – wedi codi o 74% yn 2000 i 77% yn 2003.

O'r gweddill, roedd y rhan fwyaf yn dweud eu bod 'nid yn fodlon nac yn anfodlon' â'r awdurdod. Roedd y ganran a ddywedodd eu bod yn anfodlon â'r awdurdod wedi codi ychydig o 1% yn 2000 i 3% yn 2003.

1.3 Rhaglen Wella Cymru
Bydd yr aelodau'n cofio tra bo awdurdodau tân ac achub yn Lloegr yn dod dan Asesiadau Perfformiad Cynhwysfawr (CPA), y bwriad yw yng Nghymru i'r awdurdodau tân ac achub fabwysiadu Rhaglen Wella Cymru.

Mae'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru wedi crybwyll mai Swyddfa Archwilio Cymru fydd yn ymgymryd â'r arolygiad annibynnol o'r gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru, ac y bydd arolygiad newydd a rhaglen wella yn cael ei llunio a'i rhoi ar waith o 2005 ymlaen fel rhan o Raglen Wella Cymru.

Mae swyddogion o'r gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru wedi cyfarfod i drafod goblygiadau'r gyfundrefn newydd yma. Cytunwyd y byddai llythyrau'n cael eu hanfon at yr Uned Ddata Llywodraeth Leol i agor trafodaethau am ddangosyddion perfformiad y gwasanaeth tân ac achub, ac at Bennaeth Gwelliant yn Syniad/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er gwybodaeth.

2. **ARGYMHELLIAD**

2.1 Bod yr Aelodau'n nodi ac yn cymeradwyo'r camau a'r camau arfaethedig yr adroddir yn eu cylch yma.